CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 27ain MAWRTH 2018.

PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts,

Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Mike Jones, Mr John Pritchard,

Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

YMDDIHEURIAD:

Cynghorwyr Ms Linda Jones, Mr Ian Owen & Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.1.1 Croesawyd yn arbennig Cyng John Pritchard yn nol i'r Cyngor yn dilyn triniaeth Ysbyty.

1.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

1.2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw datganiad ar eitemau y rhaglen.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol, Mr Dafydd Roberts;

2.1 Adroddiad fod y Cyngor wedi gwneud camgymeriad mewn ffigurau yr Heddlu a Cyngor Cymuned yn dogfen Hysbysiad Hawlio Y Dreth Cyngor.

2.2 Adroddiad fod dogfen Ad-drefnu Ysgolion Talwrn/Y Graig wedi ei gyhoeddi.

2.3 Dangoswyd pryder gan aelodau am y cyflwr sbwriel ar hyd yr A55 rhwng cyffordd 7 & 7A yn y ddwy gyfeiriad a gofyn iddo gysylltu gyda'r cwmni perthnasol er mwyn ei ddatrys. Nodwyd fod tirwedd o gwmpas y Llecyn Golygfa ar cyffordd 7 o'r A55 wedi derbyn sylw.

Arwyddo.....

3 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (27ain Chwefror 2018).

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 27ain Chwefror 2018 yn rhai cywir **(RR/DH).**

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes – derbyniwyd adroddiad fod y mater yn ymweld wedi ei ddatrys a gobeithio cael gweld PCSO Alison Hughes yn ein cyfarfod nesaf.

4.2 Safle Gofeb Gaerwen – adroddiad gan y Clerc ei fod wedi sgwrsio gyda Mr Alun Roberts o'r Adran Briffyrdd ac roeddynt am symud ymlaen a cychwyn paratoi gorchymyn atal parcio tu allan i'r safle ac hefyd naill ochr mynedfa Lon Groes.

4.3 Stryd & Theras y Capel, Gaerwen – nodwyd fod damwain wedi digwydd ar hyd y Lon a gofyn am adroddiad oddiwrth PCSO Alison Hughes yn y cyfarfod nesaf.

4.4 Cais Goleuadau Stryd yn Pentre Berw – roedd Cynghorydd Sirol Dafydd Roberts am ddarganfod os oedd gan y Cyngor Sir unrhyw gynllun yn bodoli all elwa'r Cyngor tuag at ariannu'r gost.

4.5 Parc Gwyddoniaeth - nodwyd fod yr arwydd ger cylchdro mynediad y Parc wedi ei wneud ond angen ymateb ynghylch y goleuadau fflachar ger y mynedfa gan nid oedd son amdanynt yn y cais cynllunio gwreiddiol a hefyd fod uchder goleuadau llwybr troed o amgylch y safle yn uwch nag a grybwyllwyd yn y cais cynllunio sydd yn achosi pryder.

4.6 Graeanu Lon Groes – cadarnhaodd y Clerc fod Adran Briffyrdd y Cyngor Sir wedi cytuno ychwanegu Lon Groes ar rhestr sefydlog graeanu y Cyngor yn y dyfodol pan ddaw tywydd oer.

4.7 Safle Parcio & Rhannu – dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn ebost gan y Cyngor Sir yn nodi cyffordd 7 yr A55 (Cefn Du) fel safle posib yn sgil cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Nodwyd y bwriad ac ei fod angen cyfarfod gyda'r Cadeirydd yn gyntaf cyn cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.

5 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

5.1 **Adroddiad Taliadau & Derbyniadau Mis Chwefror 2018.**
Fe aeth y Clerc drwy taliadau a derbyniadau y Cyngor am mis Chwefror 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe cytunwyd i wneud y taliadau yn unfrydol. Wedi cysoni pob taliad a derbyniad, fe ddylai dangos fod £4,129 yn weddill yn y cyfrif cyffredol.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

6.1 Cais Llawn Addasu & Ehangu – Gadlys, Station Road, Gaerwen – 33C318 – **DIM SYLWADAU**.

6.2 Cais Llawn Codi Garej Bren Domestig – Rhyd yr Arian Bach, Gaerwen - 33C319 – **DIM SYLWADAU.**

Arwyddo..... Tudalen 2.

7 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

7.1 Cais Llawn Codi Fliw ar to adeilad y Parc Gwyddoniaeth – 33C304G/1 – CANIATAD.

7.2 Cais Llawn Newid Defnydd Adeilad Allanol – Ashleigh House, Gaerwen – 33C63C – CANIATAD.

8 MATERION CAEAU CHWARAE.

8.1 DIM MATERION YN CODI.

9 MATERION LLWYBRAU.

9.1 DIM MATERION YN CODI.

10 MATERION PRIFFYRDD.

10.1 **Arwydd Cyflymder Radar –** roedd y Clerc wedi derbyn pecyn oddiwrth Cwmni Elan City yn cynnig arwydd cyflymder (cost £1,800). Rhannwyd y gwybodaeth gyda'r aelodau ac fe benderfynwyd mewn egwyddor ymgymeryd a'r cynnig ond gwneud mwy o ymchwil ynglyn a'r cwmni a cysylltu gyda Adran Briffyrdd y Cyngor Sir cyn symud ymlaen.

10.2 **Tyllau** – dangoswyd pryder cyflwr y tyllau ger mynedfa y Stad Diwydiannol a ger cyffordd yr A55 yn mynd tuag at Fangor. Gofynodd y Clerc i'r aelodau fynd o gwmpas y pentref er mwyn darganfod safleoedd eraill sydd angen sylw er mwyn darparu rhestr i'r Adran Briffyrdd.

11. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

11.1 **Adroddiad Cyfarfod Un Llais Cymru – 22ain Mawrth 2018 –** oddiwrth Cynghorwr Raymond Evans ac ymhlith y rhaglen soniwyd am Tal i'r Cynghorwyr ac fod angen llythyr ganddynt yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r tal £500 pob aelod oddiwrth y Cyngor Cymuned. Hefyd y bydd rhaid penodi Swyddog Deddfwriaeth Diogelu Data Newydd erbyn diwedd Mis Mai. Hefyd, fe fydd rhaid y Cyngor adnabod Pencampwr Iaith ar gyfer pob Cyngor fel rhan o Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor Sir 2016-2021.

11.2 **Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Holl Gynghorau Tref & Chymuned Cymru –** roedd Cynghorydd Einio Williams am cwblhau'r arolwg ar rhan y Cyngor.

11.3 **Parc Gwyddoniaeth –** nodwyd gyda siom nad oedd y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad swyddogol i'r diwrnod agored yn ddiweddar ac i anfon llythyr i'r Prif Weithredwr yn datgan y siomedigaeth yma.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24ain EBRILL 2018.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:20yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.